John Walter Jones
Cadeirydd
Awdurdod S4C
Parc Ty Glas
Llanisien
CAERDYDD
CF14 5DU

20 Gorffennaf 2007

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf atoch fel Rheolwr Gyfarwyddwr Calon er mwyn ymateb i'r ddogfen ymgynghori ***Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol*** a'r syniad o sefydlu gwasanaeth newydd yn y Gymraeg i blant. Mae cwmni Calon yn croesawu'r fenter hon yn llwyr.

Mi wnes i grybwyll yn fy llythyr blaenorol fel Cadeirydd Grŵp Animeiddio Cymru, ein bod yn gweld y sianel newydd fel cyfle i ymateb i'r twf sylweddol yn y nifer o siaradwyr Cymraeg dan bymtheg. Yn ogystal mae'n gyfle i greu rhaglenni gwreiddiol o Gymru i'w darlledu yma, ar draws y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Mae angen sianel gyda meddylfryd gwasanaeth cyhoeddus er mwyn creu rhaglenni gwreiddiol i blant. Fe allai'r sianel newydd hon gyflawni'r gofyn hwn ar draws wahanol gyfryngau gan fanteisio ar yr amryw ffyrdd sydd bellach yn bodoli er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd.

S4C sy'n gwario fwyaf ar raglenni gwreiddiol i blant yn y Deyrnas Unedig ar wahân i'r BBC. Os yw'r sianel am wireddu ei huchelgais serch hynny bydd angen bod yn ddyfeisgar ac yn fentrus er mwyn sicrhau fod yr arian sydd ar gael yn medru cynnal gwasanaeth o safon uchel ac yn medru gwneud hynny yn gyson. Y sialens i S4C wrth ymestyn y gwasanaeth o fewn y cyllid sydd ar gael fydd sicrhau nad yw'r ddarpariaeth ychwanegol yn ddibynnol ar gyfresi tramor wedi eu dybio neu ddeunydd gwreiddiol rhad o safon cynhyrchu isel. Ni fyddai hyn yn gwneud cyfiawnhad â phlant Cymru.

Credwn y bydd partneriaethau masnachol yn hanfodol at lwyddiant y gwasanaeth newydd. Dylai S4C fod yn eangfrydig ac yn agored ei meddwl ynglŷn â'r posibiliadau sydd yn bodoli er mwyn ychwanegu gwerth at fuddsoddiad S4C mewn rhaglenni plant. Mae gan reolwyr Calon record ddisglair dros y bum mlynedd ar hugain ddiwethaf o gynhyrchu rhaglenni i blant Cymru, rhaglenni a allforiwyd i dros 100 o wledydd o gwmpas y byd. Drwy hyn rydym wedi magu cysylltiadau cryf gyda darlledwyr, dosbarthwyr a phartneriaid ariannol dros y byd. Dengys cydgynyrchiadau megis ***Holi Hana*** y gall rhaglenni o Gymru gael apêl byd eang, gan ddenu buddsoddiadau oddi wrth ddarlledwyr a sefydliadau ariannol. Credwn y gallwn ddenu rhagor o arian at y sianel, nid yn unig ar gyfer rhaglenni animeiddio, ond hefyd at ddramâu a fformatau adloniant i blant. Dylai'r bartneriaeth rhwng cynhyrchwyr annibynnol ac S4C olygu fod cynhyrchwyr yn cyd-ariannu rhaglenni er mwyn ychwanegu gwerth at gyllideb S4C. Dylai'r math o fuddsoddiad a wnaethpwyd gan Calon (£650,O00) yng nghyfres ***Holi Hana*** gael ei ystyried yn "norm" yn hytrach nag eithriad mewn byd lle bod y cyfleoedd a'r cyfrifoldeb am ymelwa ar hawliau masnachol yn perthyn i gwmniau annibynnol mewn partneriaeth gyda darlledwyr.

Mae Calon wedi sefydlu cwmni dosbarthu rhyngwladol ar y cyd a Boomerang. Mae'r cwmni hwn eisoes wedi buddsoddi yn yr hawliau gwerthiant rhyngwladol yn ail gyfres ***Holi Hana.*** Diben y cwmni yw ymelwa ar yr hawliau masnachol mewn cynnwys wedi ei gynhyrchu gan Boomerang, Calon a chwmnïau eraill. Gwelwn y gyd-fenter hon fel partner potensial ar gyfer y sianel newydd, ac yn gyfle i ddenu cyd-arian tuag at gynnwys plant.

Fel aelod o fwrdd Plant PACT a'r Grŵp Cynghori Animeiddio, rwy'n ymwybodol iawn o'r lobio sy'n digwydd ar hyn o bryd er mwyn sicrhau buddion treth ac ariannu amgen ar gyfer teledu a chynnwys i blant. Mae'r lobi yn ffynnu, ac fe gredwn y bydd cynllun o'i fath yn cael ei gyflwyno yn y tymor byr neu ganol. Mae'n anorfod y bydd angen partneriaid masnachol ar S4C i gymryd mantais o'r nawdd ychwanegol hwn.

Mewn ymateb i gais yr Awdurdod am sylwadau ynglŷn â siâp a natur y ddarpariaeth fe gynigiwn y sylwadau canlynol. Cefnogwn y syniad a grybwyllwyd yn y ddogfen o greu blociau amser, gan redeg gwahanol flociau

ar gyfer gwahanol oedrannau ar un sianel. Dylai'r gynulleidfa darged ar gyfer bobl ifanc yn eu harddegau fod yn gul, rhwng 13 ac 16 mlwydd oed. Fel y crybwyllwyd yn y ddogfen mae'r gynulleidfa yn gyfrwng-glyfar *(media savvy).* Nid yw'r rhai rhwng 10 a 12 yn bobl ifanc, a byddant yn mynnu rhaglenni wedi eu cynhyrchu yn arbennig iddyn nhw.

Gall slot i'r harddegwyr redeg o 18:30 i 21:00 yn yr wythnos, a dros y penwythnos gellid frandio slot unigryw gyda digwyddiadau arbennig ayyb ar eu cyfer, gan roi statws a pherthnasedd iddynt o'r sianel. Rhaglenni gwreiddiol ac animeiddio *cwlt* wedi eu comisiynu ar eu cyfer.

Er mwyn denu gwylwyr newydd i'r sianel mae un *genre* yn holl bwysig sef drama hir dymor di-dor. Fe ddylai dwy gyfres o leiaf fod yn rhedeg, un ar gyfer y gynulleidfa graidd (6-12 mlwydd oed) ac un ar gyfer rhai yn eu harddegau. Mi fydd hefyd yn bwysig darparu drama/gomedi neu *sit com* ar gyfer y gynulleidfa hŷn.

Credwn bydd y sianel newydd yn dod a hwb i'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n datblygu a chynhyrchu rhaglenni teledu yng Nghymru. Yn ogystal â chadarnhau enw da Cymru fel cadarnle yn sector hon, fe all y sianel fod yn hwb i'r cwmnïau annibynnol chwilio am bartneriaid tu hwnt i Gymru.

Mae angen rhaglenni uchelgeisiol ar sianel uchelgeisiol, a chwmnïau cryf blaengar i'w cynhyrchu. Rydym yn wir obeithiol na fydd y sianel newydd yn fewnblyg, ac y bydd yn edrych i allforio ei rhaglenni yn hytrach na ddibynnu ar fewnforio rhaglenni neu ddibynnu ar gynnwys rhad.

Edrychwn ymlaen at gyfrannu at ddatblygiad a llwyddiant y gwasanaeth newydd, fydd yn fuddiol i blant a diwydiant Cymru.

Yn gywir

Robin Lyons

Rheolwr Gyfarwyddwr